

# Cofnodion Cyfarfod Blynyddol Menter Iaith Sir y Fflint

Nos Iau, 14eg o Dachwedd 2013 am 7.30 yr hwyr

Corlan, Parc Busnes Yr Wyddgrug, Stryd Wrecsam, Yr Wyddgrug, CH7 1XP

**Preseanol:** Harri Bryn Jones, Nesta Davies, Nia Wyn Jones, Rhian Davies (Menter Iaith Sir y Fflint), Huw Alun Roberts, Kieran Duff (FLVC), Dylan Davies, Rebecca Roberts (Menter Iaith Sir y Fflint), Darren Morris (Urdd), Gill Stephen (Menter Iaith Sir y Fflint), Dafydd Beattie (Menter Iaith Sir y Fflint/Urdd), Ruth Williams (Menter Iaith Sir Ddinbych), Dave Mackie (Cyngor Sir y Fflint), Cefin Campbell (Sbectrwm).

**Ymddiheuriadau:** Siân Rogers (Urdd), Eirian Conlon (Prifysgol Bangor), Iddon Edwards (Llywodraeth Cymru), Ceri Hulmes (Mudiad Meithrin), Carl Renshaw, Bronwen Wright (Merched y Wawr), Bethan Williams, Dafydd Morris, Claire Homard (Cyngor Sir y Fflint), Ian Budd (Cyngor Sir y Fflint), Aled Lloyd Davies, Caren Bryon, Ifor Gruffydd (Canolfan Cymraeg i Oedolion Gogledd Cymru), Frances Jones (Popeth Cymraeg), Marian Antrobus (Mudiad Meithrin).

## 1. Croeso gan y Cadeirydd

Diolchodd y Cadeirydd i'r staff a'r cyfarwyddwyr am eu gwaith caled yn ystod y flwyddyn gan estyn croeso mawr i'r staff newydd sydd wedi ymuno â'r tîm ers y llynedd, sef Gill Stephen a Dafydd Beattie. Diolchodd hefyd i Rebecca am wneud y gwaith cyfieithu ar y pryd. Tynnodd sylw at yr arddangosfeydd o amgylch y swyddfa, oedd yn dystiolaeth o'r gwaith da ac amrywiol sy'n cael ei wneud gan y Fenter.

## 2. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod Blynyddol 2011

Cynigwyd Dylan Davies bod y cofnodion yn gywir ac eiliwyd hynny gan Rebecca Roberts.

## 3. Materion yn Codi

Nid oedd materion yn codi o'r cofnodion.

## 4. Derbyn Adroddiad y Rheolwr

Cyflwynwyd yr Adroddiad Blynyddol gan y Rheolwr gan dynnu sylw at y meysydd gwaith yr ydym wedi bod yn gweithio ynddynt yn ystod y flwyddyn, gan ganolbwyntio ar y meysydd Teuluoedd, Plant a Phobl ifanc a Chymunedau yn benodol. Nodwyd y pwyslais bellach ar fesur effaith gweithgareddau, casglu dystiolaeth a'r bwysigrwydd o fonitro, gwerthuso ac adrodd yn ôl ar ganlyniadau i brofi cynnydd, yn ogystal â mwynhad ein cyfranogwyr. Tynnodd y rheolwr sylw at y pwysigrwydd o gydweithio gyda'n partneriaid megis yr Urdd, Mudiad Meithrin, Cyngor Sir y Fflint a'r Colegau ac Ysgolion lleol. Enghraifft dda o hyn yw'r Prosiect Cydweithredol, mae dros 2000 o blant wedi cymryd rhan yn y prosiect, gan ein cynorthwyo i gyrraedd ein holl dargedau gan chwalu'r rhan fwyaf.

Diolchodd yn ddiffuant i'r staff, (y rhai sydd wedi ymadael a'r rhai newydd). Mae'r Fenter yn eithriadol o ffodus o'u cael. Diolchodd hefyd i'r cyfarwyddwyr, partneriaid a'r gynulleidfa am eu cefnogaeth barhaol yn ystod y flwyddyn. Nododd fod y Fenter wedi bod yn llwyddiannus yn denu nawdd yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ond fod y symiau ddim yn agos i'r hyn sydd ei angen i wirioneddol symud pethau ymlaen ar ran yr iaith. Tynnwyd sylw arbennig at y datblygiadau gydag Addysg Gymraeg yma yn Sir y Fflint gydag agor uned newydd Gymraeg yn Shotton dan adain Ysgol Croes Atti, ym mis Medi 2014. Dyma ddatblygiad gwych, ond heriol! Mae angen i'r neges fod addysg Gymraeg ar gyfer pawb gyrraedd holl rieni'r ardal yn ddigon buan ac yn ddigon cryf.

#### **5. Derbyn Cyfrifon hyd at Fawrth 31ain 2012**

Diolchwyd i Gwawr Murphy am ei gwaith gyda'r cyfrifon dros y flwyddyn. Diolchwyd hefyd i Carl Renshaw am ei waith fel Trysorydd, ac i Dylan Davies sydd bellach wedi ymgymryd â'r swydd hon. Yn unol â chyfansoddiad y Fenter, derbyniwyd y cyfrifon eisoes gan y Bwrdd Cyfarwyddwyr. Derbyniwyd y cyfrifon.

#### **6. Ethol Bwrdd Cyfarwyddwyr**

Yn unol â chyfansoddiad y Fenter rhaid i'r cyfarwyddwyr ymddiswyddo cyn cael eu hailethol. Cynigodd Gill Stephen fod yr holl gyfarwyddwyr yn cael eu hailethol, ac yr oedd pawb ar wahân i Bronwen Hughes yn dymuno parhau. Pasiwyd felly i ailethol y cyfarwyddwyr canlynol: Huw Alun Roberts, Harri Bryn Jones, Dylan Davies, Nesta Davies, Carl Renshaw a Nia Wyn Jones. Cynigiwyd enw cyfarwyddwr newydd, sef Nia Connah. Y Fenter i estyn gwahoddiad iddi.

#### **7. Unrhyw Fater Arall**

Llywodraeth Cymru wedi lansio ymgyrch newydd - Byw Yng Nghymru: Dysgu'n Gymraeg - Live in Wales: Learn in Welsh. Mae'r prosiect yn cael ei beilotu mewn 5 ardal a nodwyd Sir y Fflint fel un o'r rhain. Fodd bynnag, am resymau na ellir eu hesbonio, mae'r Llywodraeth wedi penderfynu lansio ymgyrch Sir y Fflint yn y Rhyl, Sir Ddinbych! Mae'r Fenter wedi cysylltu gyda'r Llywodraeth i nodi ein siom ynglŷn â hyn, gan fod cyfle euraidd wedi ei cholli yma i hyrwyddo'r ysgol newydd yn Shotton.

#### **8. Dyddiad a Lleoliad y Cyfarfod Blynyddol Nesaf**

Nos Iau, Tachwedd 13eg, 2014, 7.30pm. Ysgol Croes Atti@Glannau Dyfrdwy, Shotton.

#### **9. Anerchiad gan Cefin Campbell – Sbectrwm**

Croesawyd Cefin Campbell gan y Cadeirydd, gan nodi ei fod yn un o sylfaenwyr y Fenter Iaith gyntaf yng Nghwm Gwendraeth nôl yn 1991. Bu hefyd yn gymorth mawr wrth sefydlu Menter Iaith Sir y Fflint yn 1997, ac eto yn 2008, pan gynhaliodd adolygiad o'r Fenter cyn ail-strwythuro. Roedd Cefin yn rhan o'r tîm oedd wedi cael eu comisiynu gan Lywodraeth Cymru i gynnal arolwg o'r Mentrau Iaith a Chynlluniau Gweithredu Iaith ar draws Cymru, a rhannodd rhai o'i brif ganfyddiadau a sylwadau personol yn sgil y gwaith hwn. Nid yw'r Adroddiad terfynol wedi ei gyhoeddi eto, ac oherwydd hynny barn personol yn unig a gafwyd gan Cefin. Gofynnodd yr

arolwg nifer o gwestiynau ynglŷn â threfn gyfansoddiadol y Mentrau, eu cylch gorchwyl, eu cyllid, natur eu partneriaethau a chydweithio a dulliau mesur deilliannau. Nododd Cefin fod nifer o fudiadau iaith yn gweithio tuag at yr un nod ac yn pysgota yn yr un pwll, megis y Mentrau, Urdd, Ffermwyr Ifanc, Mudiad Meithrin, TWF, Cynlluniau Gweithredu Iaith, ayyb, a bod y darlun cyffredinol yn dangos diffyg cynllunio strategol rhwng y prif chwaraewyr, gyd rhai mudiadau yn cystadlu a'i gilydd ac o ganlyniad ddim yn gwneud y defnydd gorau o arian cyhoeddus. Nodwyd fod y rhan fwyaf o'r Fforymau Iaith yn fwy o siop siarad na dim arall, heb ganolbwytio ar gynllunio strategol ar y cyd. Gwelwyd rhywfaint o fai ar yr awdurdodau am beidio ag arwain ar hyn. Mae'r modd yr oedd Bwrdd yr Iaith a nawr Llywodraeth Cymru yn gosod targedau tebyg i'r prif bartneriaid yn cyfrannu at y dryswch hwn. Nododd Cefin fod prosiectau, megis Prosiect Cydweithredol trwy'r Cynllun Datblygu Gwledig yn y Gogledd Ddwyrain yn esiampl dda o sut y gall y Mentrau a mudiadau eraill gydweithio. Mae angen dod â'r prif bartneriaid o amgylch y bwrdd a chytuno ar dargedau ar y cyd ar gyfer sir neu ardal benodol. A ddylai'r Mentrau dderbyn targedau? Onid ydyn nhw'n caethiwo ysbryd mentergarwch y mentrau ac yn eu rhwystro rhag ymateb yn fyrfyr i sefyllfaoedd a chyfleoedd sy'n codi yn ystod y flwyddyn. Mae'r targedau presennol yn rhai meintioliol, hawdd i'w mesur ond yn arwynebol. Mae angen targedau sy'n mesur y defnydd o'r iaith Gymraeg yn ansoddol. Mae angen bod yn llawer mwy soffistigedig wrth lunio targedau. Beth yw pwrpas targedau oni bai eu bod yn

1) cynyddu'r niferodd neu

2) cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg?

Gwendid arall a welwyd oedd ei bod hi'n amhosibl bron i'r Mentrau brofi a dangos y gwir wahaniaeth maen nhw'n ei gael ar sefyllfa'r Gymraeg yn lleol. Trafodwyd hefyd dyfodol ffiniau'r cynghorau sir. Ar hyn o bryd, mae'r rhan fwyaf o Fentrau yn gweithredu o fewn ffiniau'r cynghorau sir. Mae adroddiad Paul Williams yn argymhell ad-drefnu'r cynghorau sir i'w lleihau o 22 mewn nifer i 14 erbyn 2017/2018. Beth yw goblygiadau hyn ar y mentrau? Roedd ateb unfrydol gan y Mentrau eu bod am aros yn annibynnol o'i gilydd yn gyfansoddiadol, ond roedd nifer yn gweld modd o gydweithio i rannu adnoddau dynol, gweinyddol a chyllidol ar draws ffiniau sirol. Byddai hyn yn lleihau pwysau gweinyddol ar staff maes ac yn eu galluogi i wneud mwy o waith yn y cymunedau.

Perthynas y Mentrau â'r awdurdod lleol - Yn gyffredinol mae tensiynau, diffyg cefnogaeth mewn egwyddor ac ariannol gan yr awdurdodau. Yn aml "arian cydwybod" yw'r hyn sy'n cael ei roi i'r Mentrau er mwyn ticio bocs eu bod yn cefnogi'r Gymraeg. Mewn byd delfrydol, dylai'r Awdurdodau Lleol gymryd y cyfrifoldeb o ddarparu'n ddwyieithog a hyrwyddo'r Gymraeg yn y meysydd blaenoriaeth, e.e. chwaraeon a hamdden, gofal ayyb. Roedd y posibilrwydd ohonynt yn rhoi arian trwy gytundeb lefel gwasanaeth i fudiadau megis yr Urdd neu'r Mentrau i gyflawni'r gwaith yn y tymor byr os nad oedd adnoddau dynol digonol gyda nhw hefyd wedi codi. Ond a fyddai hyn yn golygu fod yr awdurdodau yn prynu ufudd-dod y mudiadau Cymraeg, ac yn ei gwneud hi'n anoddach herio'r drefn?

Ariannu'r Mentrau - Mae'r broses ariannu yn hollol wallgof, ac yn cael ei wneud ar sail hanesyddol ac yn gwbl ddi-drefn a di-sail. Mae angen dechrau eto a chreu dull o gyllido sy'n cyfateb â'r angen. Hefyd mae angen edrych ar sut y bydd y cyllid yn cyrraedd y Mentrau, unai'n uniongyrchol gan y Llywodraeth, trwy'r awdurdodau neu trwy gorff canolog fel Mentrau Iaith

Cymru. Gwahaniaeth mawr yn effeithlonrwydd rhai Mentrau a'i gilydd. Mae angen cysoni rhwng y Mentrau, trwy fuddsoddi mewn staff a hyfforddiant. Yn gyffredinol mae'r Mentrau yn gefnogol o'r syniad o weld Mentrau Iaith Cymru yn cymryd rôl gydlynol gryfach, gyda phrif weithredwr a strwythurau rhanbarthol, fel yr Urdd a Mudiad Meithrin.

Safonau Iaith - Rhaid sicrhau fod awdurdodau yn mabwysiadu polisiau recriwtio yn unol â'r safonau er mwyn gwneud y gorau o sgiliau disgyblion sy'n derbyn addysg Gymraeg. Rhaid i'r Comisiynydd godi lefel y bar i'r awdurdodau.

Staff y Mentrau - Gwelwyd fod staff hynod frwdfrydig yn gweithio i'r Mentrau ar draws Cymru, sy'n fodlon mynd y filltir ychwanegol gan eu bod yn credu yn yr hyn yr oeddent yn gwneud. Nid oedd Cefin yn teimlo eu bod yn cael eu gwobrwyo'n ariannol yn ddigonol nac yn derbyn cytundebau hirdymor. Golyga hyn drosiant uchel iawn yn y staff. Dylid creu proffesiwn o gynllunwyr iaith yng Nghymru, gyda strwythur o ddatblygiad mewn swydd.

Byddai cael gwared â sustem gyllido o flwyddyn i flwyddyn y Llywodraeth, gan greu cylch ariannu 5 mlynedd yn caniatáu i'r Mentrau flaengynllunio'n hirdymor, ac yn rhoi sicrwydd i staff. Mae'r Mentrau wedi cyrraedd croesffordd ar gyfer dyfodol natur eu gwaith - hwyrach y bydd meysydd gwaith y Mentrau yn newid i rôl fwy arweiniol a strategol. Gobeithir y bydd yr adroddiad terfynol yn esgor ar drafodaeth bellach adeiladol rhwng y Llywodraeth, y Mentrau Iaith a'u partneriaid a'r awdurdodau lleol.